# Polisi Preifatrwydd GDPR ar gyfer Data Gwirfoddolwyr

## Trosolwg

Yn Amgueddfa Cymru, rydym wedi ymrwymo i warchod preifatrwydd a data personol ein gwirfoddolwyr, cwsmeriaid, ymwelwyr â'n gwefan, a defnyddwyr ein gwasanaethau. Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn esbonio sut rydym yn casglu, defnyddio, datgelu a gwarchod eich gwybodaeth bersonol yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

## Rhychwant

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl wirfoddolwyr presennol a blaenorol Amgueddfa Cymru, yn ogystal ag unrhyw un sydd wedi gwneud cais am rôl wirfoddol.

Mae'r term 'gwirfoddolwr' yn cynnwys pawb sy'n ddi-dâl yn Amgueddfa Cymru. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau gwaith, cymrodyr ymchwil anrhydeddus, aelodau fforwm, ac ati.

## Rheolydd Data

Amgueddfa Cymru yw'r rheolydd data sy'n gyfrifol am brosesu data personol fel y disgrifir yn y Polisi Preifatrwydd hwn.

## Mathau o Ddata Personol Rydym yn ei Gasglu

Rydym yn casglu a phrosesu gwahanol fathau o ddata personol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Manylion cyswllt (gan gynnwys enw, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, a chyfeiriad post).
- Manylion banc (ar gyfer treuliau teithio).
- Gwybodaeth arall rydych chi'n ei roi'n wirfoddol.

Mae'r ffyrdd y bydd y data hwn yn cael ei gasglu yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Ffurflenni Ymholiad.
- Ffurflen Cofrestru.
- Ffurflen Cyfle Cyfartal.
- Ffurflen Manylion Cyswllt Mewn Argyfwng (o dan 18 yn unig).

Rydym yn casglu a phrosesu data personol ar gyfer y dibenion a'r seiliau cyfreithiol canlynol. Fel rhan o'n tasg gyhoeddus, rydym yn casglu data er mwyn gallu:

- Prosesu ymholiadau.
- Cofrestru pobl fel gwirfoddolwyr.
- Cysylltu â'n gwirfoddolwyr ynghylch gwirfoddoli yn Amgueddfa Cymru.
- Gwneud addasiadau rhesymol pan fo angen.
- Cefnogi/diogelu gwirfoddolwyr.
- Prosesu treuliau.
- Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

## Cadw Data

Byddwn yn cadw eich data personol gyhyd â bo angen i gyflawni'r dibenion a amlinellwyd yn y Polisi Preifatrwydd hwn, oni bai bod angen cyfnod cadw hirach neu y caiff ei ganiatáu gan y gyfraith. Mae'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ein cyfnodau cadw yn cynnwys natur y data, y dibenion y mae'n cael ei brosesu ar eu cyfer, ac unrhyw ymrwymiadau cyfreithiol neu reoleiddiol.

Bydd data gwirfoddolwyr yn cael ei storio'n ddiogel am y cyfnod y maent yn gwirfoddoli gyda ni, yna bydd y data hwn yn cael ei archifo am 7 mlynedd unwaith maent wedi gorffen gwirfoddoli yn Amgueddfa Cymru. Dim ond staff awdurdodedig all gael mynediad at y data gwirfoddolwyr sydd wedi'i archifo, ac mae hyn ar gyfer rhoi geirdaon, gofynion yswiriant neu pan fo'n ofynnol yn gyfreithiol yn unig.

Bydd data pobl sydd wedi cofrestru i wirfoddoli, ond a fu'n aflwyddiannus yn cael lle, yn cael ei storio tan ddiwedd y flwyddyn ariannol (1 Ebrill). Mae hyn yn rhoi amser i ni brosesu eich data yn ystod y broses recriwtio, cysylltu â chi am gyfweliadau/diwrnodau blasu a'ch hysbysu os ydych yn aflwyddiannus. Rydym yn defnyddio'r data a gawn o ffurflenni cofrestru i deilwra ein dulliau recriwtio ac i amlygu unrhyw waith sydd ei angen i sicrhau amrywiaeth ymhlith ein gwirfoddolwyr. Mae'r data hwn yn cael ei adrodd yn ddi-enw.

Bydd unrhyw ddata sy'n ymwneud â recriwtio gwirfoddolwyr yn cael ei ddileu ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn. Mae eithriad ar gyfer rhai sydd wedi cael eu recriwtio mewn un flwyddyn ariannol, ond fod y broses recriwtio heb ddod i ben erbyn 1 Ebrill. Er enghraifft, rydym wedi recriwtio rôl ym mis Mawrth, ond ni fydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal tan ganol Ebrill. Caiff y data hwn ei ddileu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ganlynol.

Os ydych hefyd wedi prynu tocyn, mynychu digwyddiad, noddi neu optio i dderbyn cylchlythyrau Amgueddfa Cymru, ni fydd eich cyfrif yn cael ei effeithio os ydych chi'n aflwyddiannus fel gwirfoddolwr. Dim ond data sy'n ymwneud yn benodol â'ch ffurflen gofrestru gwirfoddoli fydd yn cael ei ddileu. Am ragor o wybodaeth am ein hysbysiad preifatrwydd cyffredinol, ewch i: Hysbysiad Preifatrwydd - Polisi a Strategaeth | Amgueddfa Cymru

## Rhannu a Datgelu Data

Gallwn rannu'ch data personol gyda thrydydd partïon dan yr amgylchiadau canlynol:

Darparwyr gwasanaeth: Gallwn ddefnyddio darparwyr gwasanaeth trydydd parti i helpu i ddarparu ein gwasanaethau, gan gynnwys cynnal, storio data, prosesu taliadau, a chymorth cwsmeriaid. Bydd y darparwyr gwasanaeth hyn yn cael mynediad at eich data personol lle mae hyn y berthnasol i weithredu eu swyddogaethau a dan rwymedigaeth i ddiogelu eich data.

Bydd data gwirfoddolwyr yn cael ei roi i Tessitura, ein darparwr gwasanaeth (proseswyr data) ar gyfer storio data gwirfoddolwyr a chwsmeriaid yn ddiogel. Dilynwch y ddolen i weld polisi diogelu data Tessitura: [Polisi Preifatrwydd (tessituranetwork.com)]

Trosglwyddiadau busnes: Os bydd cyfuno, caffael, neu aildrefnu corfforaethol arall, gallwn drosglwyddo eich data personol i'r trydydd partïon perthnasol. Byddwn yn eich hysbysu o unrhyw drosglwyddo o'r fath ac yn rhoi opsiynau i chi o ran eich data personol.

Gofynion cyfreithiol: Gallwn ddatgelu eich data personol os oes gofyn yn ôl y gyfraith neu i ymateb i geisiadau dilys gan awdurdodau cyhoeddus (e.e. asiantaethau gorfodi'r gyfraith, cyrff rheoleiddiol).

Efallai y byddwn ar adegau yn contractio gyda thrydydd parti i ddarparu gwasanaethau, megis fetio, i Amgueddfa Cymru, ond ni fyddwn byth yn gadael i unrhyw drydydd parti ddefnyddio eich gwybodaeth lle nad oes cydsyniad wedi'i roi.

Mewn rhai achosion, mae rheidrwydd cyfreithiol i ni rannu data, er enghraifft dan orchymyn llys.

Ni fydd data gwirfoddolwyr yn cael ei rannu gydag unrhyw drydydd partïon at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Mae'r Amgueddfa wedi ymrwymo i gadw eich data yn ddiogel. Mae gofyniad cyfreithiol ar bob prosesydd data a chanddo fynediad at brosesu data personol neu sy'n gysylltiedig â phrosesu data personol i barchu cyfrinachedd y data personol a gedwir gennym. Byddwn yn cymryd pob cam sy'n rhesymol angenrheidiol i sicrhau bod eich data yn cael ei drin yn ddiogel ac yn unol â'r polisi preifatrwydd hwn.

## Trosglwyddiadau Data Rhyngwladol

Gall eich data personol gael ei drosglwyddo i wledydd tu hwnt i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r wlad rydych chi'n byw ynddi, a'i brosesu yno. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn sicrhau fod mesurau diogelu ar waith i

ddiogelu eich data personol ac i sicrhau bod y trosglwyddo yn cydymffurfio â chyfreithiau diogelu data perthnasol.

## Treuliau

Er mwyn gallu talu mân dreuliau i wirfoddolwyr, bydd Amgueddfa Cymru angen manylion banc er mwyn gallu prosesu'r cais. Bydd Amgueddfa Cymru ond yn defnyddio'r wybodaeth hon i dalu treuliau i'ch cyfrif banc. Caiff y data hwn ei storio'n ddiogel a dim ond at y diben hwn fydd Amgueddfa Cymru yn cael mynediad ato.

Darllenwch eich hawliau testunau data isod am ragor o wybodaeth am beth allwch chi ei wneud gyda'ch data sydd gan Amgueddfa Cymru.

## Ffotograffau

Mae'n ofynnol i Amgueddfa Cymru dynnu lluniau o waith gwirfoddolwyr er mwyn archifo er budd y cyhoedd. Efallai y byddwn yn tynnu lluniau o wirfoddolwyr yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn a bydd y ffotograffau hyn yn cael eu rhoi yn ein harchif.

Byddwn yn gofyn i wirfoddolwyr am eu caniatâd i ddefnyddio ffotograffau mewn unrhyw weithgaredd allanol fel marchnata, ar gyfryngau cymdeithasol, ac ati. Byddwn yn gofyn am y caniatâd hwn trwy gyfrwng Ffurflen Ganiatâd Ffotograffiaeth. Am wybodaeth ynghylch pa mor hir yr ydym yn cadw data personol, gweler ein Hamserlen Cadw Gwybodaeth.

## Delio â Chwynion

Er mwyn delio yn effeithiol ag unrhyw gwynion bydd Amgueddfa Cymru yn:

- Gadael i wirfoddolwyr neu aelodau staff unigol wybod fod cwyn ffurfiol wedi'i gwneud yn eu herbyn. Bydd hyn yn cynnwys natur y gŵyn ac unrhyw fanylion perthnasol.
- Rhoi gwybod i staff o'r Adran Gwirfoddoli ac Ymgysylltu.
- Rhoi gwybod i oruchwylydd y gwirfoddolwr (aelod o staff sy'n goruchwylio'r gwirfoddolwr o ddydd i ddydd).
- Rhannu gwybodaeth ynghylch cwyn gyda staff sydd angen gwybod ar sail iechyd a diogelwch, diogelwch casgliadau, ac ati.
- Rhannu gwybodaeth ynghylch cwyn gyda sefydliad trydydd parti, er enghraifft pan fo'n ofyniad cyfreithiol arnom i wneud.

Byddwn yn cadw'r holl ddogfennau yn ymwneud â'r gŵyn drwy gydol y broses ac am 6 mis ar ôl er mwyn rhoi amser i'r gwirfoddolwr apelio. Caiff

cofnod o'r gŵyn a'i chanlyniad hefyd ei gadw ar ôl yr amser hwn am 7 blynedd.

Caiff yr holl wybodaeth a'r dogfennau eu storio'n ddiogel. Dim ond staff awdurdodedig o Amgueddfa Cymru sydd â mynediad atynt.

## Hawliau Testun Data

Fel testun data, mae gennych chi hawliau pendant o dan GDPR, gan gynnwys:

Hawl i weld: Mae gennych chi hawl i wneud cais i weld eich data personol a chael gwybodaeth am sut mae'n cael ei brosesu.

Hawl i gywiro: Mae gennych chi hawl i wneud cais i gywiro data personol anghywir neu anghyflawn.

Hawl i ddileu: Mae gennych chi hawl i wneud cais i ddileu eich data personol o dan amgylchiadau penodol.

Hawl i gyfyngu gwaith prosesu: Mae gennych chi hawl i wneud cais i gyfyngu ar waith prosesu eich data personol mewn sefyllfaoedd penodol.

Hawl i gludo data: Mae gennych chi hawl i dderbyn eich data personol mewn fformat strwythuredig, sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin ac sy'n ddarllenadwy â pheiriant ac i'w drosglwyddo i reolydd data arall.

Hawl i wrthwynebu: Mae gennych chi hawl i wrthwynebu prosesu'ch data personol o dan amgylchiadau penodol, gan gynnwys at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Er mwyn gweithredu'ch hawliau neu ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch gwaith prosesu'ch data personol, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir ar waelod y polisi hwn.

## Diogelwch Data

Rydym yn gweithredu mesurau technegol a sefydliadol priodol i ddiogelu eich data personol rhag mynediad, newid, datgelu, neu ddinistrio anawdurdodedig. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys amgryptio data, waliau tân, protocolau diogelwch, mesurau rheoli mynediad, ac asesiadau diogelwch rheolaidd.

## Diweddaru'r Polisi Preifatrwydd

Gallwn ddiweddaru'r Polisi Preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd i adlewyrchu newidiadau yn ein harferion prosesu data neu ein hymrwymiadau cyfreithiol. Rydym yn eich annog i adolygu'r polisi hwn o bryd i'w gilydd i weld unrhyw

ddiweddariadau. Bydd y Polisi Preifatrwydd yn dod i rym ar y dyddiad a nodir ar waelod y ddogfen.

## Hyfforddiant GDPR

Bydd Amgueddfa Cymru yn rhoi hyfforddiant GDPR i bob gweithiwr yn Amgueddfa Cymru. Bydd yr hyfforddiant hwn yn orfodol ac yn cael ei gwblhau bob blwyddyn.

## Cydymffurfio â'r Polisi

Bydd y tîm Diogelwch Gwybodaeth yn dilysu cydymffurfedd â'r polisi hwn drwy amryw o ddulliau, gan gynnwys ymysg pethau eraill profi'r broses gam wrth gam yn achlysurol, monitro fideos, adroddiadau adnoddau busnes, archwiliadau mewnol ac allanol, ac adborth i berchennog y polisi.

Eithriadau: Rhaid i unrhyw eithriad i'r polisi gael ei gymeradwyo gan y tîm Diogelwch Gwybodaeth ymlaen llaw.

Diffyg cydymffurfio: Gall gweithiwr cyflogedig y gwelir ei fod wedi torri'r polisi hwn wynebu achos disgyblu, hyd at ac yn cynnwys terfynu ei gyflogaeth.

| Dyddiad y Newid | Y Sawl sy'n Gyfrifol | Crynodeb o'r Newid |
|---|---|---|
| 01/01/2024 | Ffion Davies, Rheolwr Gwirfoddolwyr a Lleoliadau. | Diweddarwyd i adlewyrchu'r defnydd o Tessitura. |

Manylion cyswllt ar gyfer ein Swyddog Diogelu Data: swyddogdiogeludata@amgueddfacymru.ac.uk neu 0300 1112 333.